

Erthygl 1 Y Cyfansoddiad

1.1 Pwerau'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn ymarfer ei holl bwerau a'i ddyletswyddau yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn.

1.2 Y Cyfansoddiad

Y Cyfansoddiad hwn, a'i holl atodiadau, yw Cyfansoddiad Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae canllaw i'r Cyfansoddiad hwn, sy'n esbonio ei gynnwys mewn iaith arferol, wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

1.3 Pwrpas y Cyfansoddiad

Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

1. Rhoi'r trefniadau a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth moderneiddio llywodraeth leol ar waith yn ffurfiol;
2. Galluogi'r Cyngor i ddarparu arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a chyrrff eraill;
3. Cefnogi cyfranogiad gweithredol dinasyddion yn y broses o lunio penderfyniadau'r awdurdod lleol;
4. Cynorthwyo cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;
5. Galluogi penderfyniadau i gael eu cymryd yn effeithlon ac yn effeithiol;
6. Creu dull pwerus ac effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu galw'r rhai sy'n llunio penderfyniadau i gyfrif;
7. Sicrhau na fydd unrhyw aelod yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad y bu ganddo/ganddi ran uniongyrchol yn y broses o'i lunio;
8. Sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau yn hawdd eu hadnabod gan bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau am benderfyniadau; a
9. Bod yn gyfrwng i wella'r modd y darperir gwasanaethau i'r gymuned.

1.4 Dehongli ac Adolygu'r Cyfansoddiad

Lle bo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis rhwng gwahanol ffyrdd o weithredu, bydd y Cyngor bob amser yn dewis yr un sydd agosaf, yn ei farn ef, at y pwrpasau a nodwyd uchod. Bydd y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r modd y gweithredir y Cyfansoddiad, fel y'i cyflwynir yn Erthygl 14